

Achos dros Newid: Trosolwg o gynigion ar gyfer Grwpiau Busnes a Chyfarwyddiaethau Gwasanaethau Galluogi

O dan gynigion a gyflwynwyd i reoli'r heriau ariannol sy'n wynebu Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), cynhaliwyd adolygiad o'r gwaith i flaenoriaethu'r gweithgareddau rydym yn eu cyflawni, gan adlewyrchu ein dyletswyddau statudol, y blaenoriaethau a nodir yn ein tymor o Lythyr Cylch Gwaith y Llywodraeth yn ogystal ag amcanion llesiant y cynllun corfforaethol.

yn yr adolygiad ystyriwyd yr hyn y gall ac y dylai CNC barhau i'w wneud, yr hyn y dylid ei raddio'n ôl a beth ddylai stopio.

Dyma amlinellid byr o'r newidiadau arfaethedig ar gyfer pob Grŵp Busnes a Chyfarwyddiaeth Gwasanaeth Galluogi.

Grŵp Busnes Rheoli Adnoddau Naturiol (NRM)

Mae'r grŵp busnes hwn yn hwyluso rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol drwy ddylanwadu ar bolisi gan ddefnyddio tystiolaeth a darparu cyngor, i sicrhau canlyniadau amgylcheddol integredig ar gyfer bioamrywiaeth, tir, dŵr a morol. Mae'r grŵp yn sicrhau cyllid ychwanegol ar gyfer prosiectau a rhaglenni fel adfer mawndir a gwella ansawdd dŵr drwy weithio gyda Llywodraeth Cymru a chyrrff cyllido allanol.

Bydd lefel yr adnodd sydd wedi ymrwymo i rai gweithgareddau yn lleihau gan gynnwys mynediad awyr agored a hamdden, darparu grantiau, polisi amgylcheddol strategol a newid yn yr hinsawdd.

Bydd rhai gweithgareddau morol, pysgodfeydd, asesiadau strategol, dyletswyddau cynllunio statudol a thirwedd, dŵr daear a thir halogedig, rhaglen rhywogaethau estron ymledol, rheoli tir cynaliadwy (gan gynnwys polisi priddoedd), cyllid allanol a'r Gwasanaeth Cynghori Cynllunio Datblygu (DPAS) hefyd yn gweld rhai gostyngiadau neu newidiadau yn lefelau adnoddau.

Rydym yn cynnig peidio â chael tîm addysg ac iechyd pwrpasol mwyach, rydym hefyd yn cynnig atal gweithgareddau sy'n gysylltiedig â hyfforddiant ac achrediad Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy, cefnogaeth a cyd-drefnu Datganiadau Ardal o EPP a'r rhaglen seilwaith gwyrdd.

Grŵp Busnes Tystiolaeth

Mae'r grŵp hwn yn gyfrifol am sicrhau bod tystiolaeth gadarn a gasglwyd o ddata amgylcheddol unigryw ar adnoddau naturiol Cymru, ar gael i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau gan gynnwys y rhai mewn llywodraeth, awdurdodau lleol a'r sector preifat.

O dan y cynigion, y gweithgareddau a fydd yn parhau yw rheoli, dadansoddi ac asesu data monitro ar gyfer dŵr croyw, daearol, morol a gwastraff. Bydd CNC yn lleihau'r lefel yr adnoddau sydd wedi'u hymrwymo i dystiolaeth integredig (gwyddorau cymdeithasol, economeg, ystadegau ac ymchwil weithredol) a bydd gostyngiadau mewn gweithgareddau gwybodaeth.

Bydd holl wasanaethau'r llyfrgell yn dod i ben o dan y cynigion.

Grŵp Busnes Stiwardiaeth Tir

Mae'r gwasanaeth yn rheoli 150,000 hectar o adnoddau naturiol yng Nghymru, gan gynnwys coetiroedd a gwarchodfeydd natur gyda chyfrifoldebau am hawliau tramwy, tir mynediad agored a llwybrau â arwyddnodau. Mae hefyd yn cynnwys rheoli asedau ar y tir dan ofal CNC i leihau risg iechyd a diogelwch a rheoli rhwymedigaethau tirfeddianwyr gan gynnwys ffyrdd coedwig, pontydd, ceuffosydd, cronfeydd dŵr, tomenni glo cyn-ddiwydiannol, yn ogystal â choed a allai fod yn beryglus.

Rydym yn cynnig lleihad mewn rheoli nodweddion treftadaeth ar Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru, gweithrediad hamdden anfasnachol a mynediad i ymwelwyr a chynllunio hamdden ystadau.

Bydd ein gwaith ar reoli safonau ystadau, rheoli cronfeydd dŵr heb lifogydd, rhaglen gyfalaf a chynnal a chadw rheoli rhwymedigaethau cyfreithiol, gwaith asiantaeth tir, archwilio a chynnal a chadw asedau, rheoli diogelwch yn gweld rhai gostyngiadau neu newidiadau i ffyrdd o weithio.

Grŵp Busnes Rheoleiddio

Rydym ni fel sefydliad yn rheoleiddio ystod eang o weithgareddau ar y safle ac oddi ar-safle, gan gynnwys: diwydiant a gwastraff, ansawdd ac adnoddau dŵr, coedwigaeth, diogelu rhywogaethau pysgodfeydd, a safleoedd dynodedig i sicrhau bod pobl a'r amgylchedd naturiol yn cael eu gwarchod.

Rydym yn cynnig rhai gostyngiadau bach mewn gorfodi, gan gynnwys mynd i'r afael â throeddau gwastraff a'r rhai gostyngiadau mewn datblygu dulliau rheoleiddio (darparu tystiolaeth, cyngor ac arweiniad). Byddwn yn cynyddu capasiti cydymffurfio rheoleiddiol ar draws dŵr ac yn cynnal lefelau cyfredol ar gyfer gweithgareddau gwastraff a chydymffurfiaeth â'r diwydiant.

Bydd gwaith ar fecanweithiau'r farchnad amgen yn dod i ben.

Grŵp Busnes Rheoli Perygl Llifogydd

Mae'r grŵp hwn yn gyfrifol am nodi sut mae CNC yn rheoli ac yn ymateb i berygl llifogydd. Mae'n gweithredu ac yn rheoli asedau llifogydd presennol, yn darparu system rhybuddio llifogydd, yn rheoleiddio diogelwch cronfeydd dŵr, yn darparu cyngor ac arweiniad i awdurdodau cynllunio, modelau ac yn rhagweld perygl llifogydd, ac yn darparu cynllun, ymateb a gwasanaeth cymorth yn ystod digwyddiadau llifogydd.

O dan y cynigion, ni chynhwysir unrhyw newidiadau i strwythurau, ond bydd adolygiad ar wahân sy'n edrych ar ffyrdd o weithio a threfniadau trefnu i wireddu mwy o effeithlonrwydd a chyfleoedd i integreiddio llifogydd yn agosach â gwasanaethau eraill, er enghraifft Stiwardiaeth Tir, yn adrodd ym mis Rhagfyr 2024.

Grŵp Busnes Rheoli Digwyddiadau

Mae'r grŵp hwn yn arwain y gwaith o gynllunio a pharatoi ar gyfer digwyddiadau ac argyfyngau. Mae'n paratoi drwy gynllunio, hyfforddi ac ymarfer ar gyfer digwyddiadau ac yn nodi canllawiau a gweithdrefnau ar gyfer ymateb i ddigwyddiadau ac adferiad. Mae'n gweithredu Canolfan Cyfathrebu Digwyddiadau 24 awr (ICC) i ymateb i alwadau ac ysgogi ymatebion gan ddefnyddio swyddogion ar ddyletswydd a staff wrth gefn.

O dan y cynigion newydd, bydd yr ICC yn parhau i weithredu, ond bydd yn cael ei uno â'r Hwb Cwsmeriaid

Mae gwaith eisoes ar y gweill i gryfhau a gwella ein dull o reoli digwyddiadau amgylcheddol gyda mwy o holi a synthesis o dystiolaeth a data i nodi sectorau a daearyddiaethau sy'n cael yr effaith fwyaf ac sy'n cynnig y cyfle gorau ar gyfer gweithgarwch wedi'i dargedu. Rydym yn dechrau newid ein dull o ymdrin â digwyddiadau - gan fabwysiadu goddefgarwch uwch o risg, mwy o dargedu a lleihau nifer y galwadau blaenoriaeth isel yr ydym yn ymateb iddynt. Unwaith y byddwn wedi gweithredu cam cyntaf y rhaglen newid, byddwn yn asesu'r effaith ar y rotas arbenigol a chyffredinol.

Cyfarwyddiaeth Gyfathrebu, Cwsmer a Gwasanaeth Masnachol

Mae'r Gyfarwyddiaeth Gyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol (CCC) yn arwain y sefydliadau sy'n gweithredu ac yn darparu gwasanaethau sy'n gysylltiedig â swyddogaethau cwsmeriaid, cyfathrebu, digidol a chyfieithu. Mae'r Gyfarwyddiaeth yn arwain yr holl weithgareddau masnachol – gwerthiannau pren, datblygu ffermydd gwynt a chytundebau masnachol eraill – ac mae'n arwain ar gaffael a rheoli contractau yn unol ag arfer gorau.

Rydym yn cynnig tynnu nol ar wasanaethau cyfathrebu integredig a bydd rhai gostyngiadau neu newidiadau i'r cyfieithu, y cwsmer, caffael a'r contractau, asiantau

tir masnachol, datblygu busnes, cymorth busnes masnachol, llywodraethu cyflenwi ynni, marchnata pren a datblygu masnachol (gwerthu a marchnata).

Rydym yn cynnig peidio â gweithredu darpariaeth arlwyo a manwerthu mewn canolfannau ymwelwyr mwyach, byddwn yn mynd ati i chwilio am bartneriaid i redeg y gwasanaethau hyn. Bydd y safleoedd yn parhau ar agor ar gyfer cerdded, beicio, mannau chwarae, parcio ceir a darpariaeth toiled.

Cyfarwyddiaeth Strategaeth Gorfforaethol a Datblygu

Mae'r gyfarwyddiaeth hon yn gosod cyfeiriad strategol y sefydliad drwy'r cynllun corfforaethol a'r fframwaith rheoli perfformiad, gan gynnwys gosod y cynllun busnes blynyddol. Mae'n datblygu polisiau ac yn darparu'r offer i alluogi darparu ar draws CNC i staff gyflawni eu gwaith o ddydd i ddydd ac i'r sefydliad weithredu. Y gwasanaethau a ddarperir yw: gwasanaethau cyfreithiol, rheoli pobl, datblygu pobl a lles, llywodraethu ac ysgrifennydd bwrdd, strategaeth gorfforaethol a PMO (Swyddfa Rheoli Rhaglenni).

Bydd rhai gostyngiadau neu newidiadau i'r gwasanaethau a ddarperir o fewn llywodraethu a risg, ymgysylltu â staff, cynllunio corfforaethol a rheoli perfformiad, cymorth AD a recriwtio.

Bydd yr holl gydlynu a darparu offer gwella parhaus yn dod i ben.

Cyfarwyddiaeth Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol

Mae'r gyfarwyddiaeth hon yn darparu gwasanaethau cymorth a chydlynu canolog sy'n galluogi CNC i weithredu'n effeithlon. Mae'n gosod polisiau ac yn darparu offer i staff, gan gwmpasu meysydd fel TGCh, cyllid, gwasanaethau cymorth busnes, NRW2030 (rhaglen waith i symleiddio prosesau i leihau'r baich ar staff), ac archwilio mewnol a Systemau Rheoli Amgylcheddol (EMS).

O dan y cynigion hyn, bydd y portffolio NRW2030 yn darparu'r ffocws sefydliadol ar ysgogi gwelliannau i effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

Bydd gostyngiadau yn lefel y gwasanaeth mewn cyllid a fflyd a chyfleusterau.

Ni fydd unrhyw wasanaethau'n dod i ben o dan y cynigion hyn er y rhagwelir y bydd newidiadau i'r hyn a gynigir.